# Swyddog Lles Ieuenctid

| | |
|---|---|
| TGP Cymru yw'r brif elusen yng Nghymru, sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant, pobl ifanc a theuluoedd agored i niwed drwy amrywiaeth o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Ariennir gwasanaethau TGP Cymru gan nifer o gyllidwyr ac mae'r elusen yn darparu gwasanaethau ledled Cymru. | tgp CYMRU PLANT A THEULUOEDD CHILDREN AND FAMILIES |

**Adran TGP Cymru:** Gwasanaethau i Deuluoedd – Rhaglen Ffoaduriaid a Llochesi

**Yn gyfrifol i:** Rheolwr Datblygu'r Rhaglen Ffoaduriaid a Llochesi

**Lleoliad:** Gweithio gartref gyda chylch gwaith Cymru gyfan, a chyfleusterau desg boeth yng Nghaerdydd ac Abertawe.

**Diben y rôl:**

Bod yn bwynt cyswllt sefydlog i Bobl Ifanc sy'n Ceisio Lloches (18 i 25 oed) sy'n byw mewn Canolfannau Llety Cychwynnol, gan eu helpu i ddatrys materion ar unwaith lle bo hynny'n bosibl, darparu cymorth i gael mynediad at gymorth cymdeithasol ac emosiynol yn ogystal ag eiriolaeth, cyfeirio a gwybodaeth i ffoaduriaid ifanc a cheiswyr lloches sy'n gymwys i gael mynediad i'r gwasanaeth, gan gynnwys y rhai sy'n honni eu bod yn blant dan oed.

**Atebolrwydd / Cyfrifoldebau**

- Cynorthwyo ceiswyr lloches a ffoaduriaid ifanc drwy ddarparu eiriolaeth, mentora, cyfeirio, gwybodaeth a gwaith cyfranogi, gan ddyfeisio a hwyluso gweithdai er mwyn helpu eu dealltwriaeth.
- Trafod â gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr achos y Swyddfa Gartref, cyfreithwyr, gweithwyr addysg ac iechyd proffesiynol, gweithwyr tai a gweithwyr proffesiynol eraill ar ran plant / pobl ifanc – a mynd gyda nhw i fforymau gwneud penderfyniad a sicrhau bod eu barn yn cael ei chynrychioli
- Cynorthwyo plant a phobl ifanc i wneud cwynion anffurfiol / ffurfiol i gyrff statudol / gwirfoddol pan fo angen, megis gwasanaethau cymdeithasol, addysg a thai
- Cynorthwyo'r Rheolwr Tîm i asesu allbynnau'r Gwasanaeth o'u cymharu â'r fframwaith o ganlyniadau y cytunwyd arnynt drwy fonitro gweithgarwch a chasglu gwybodaeth briodol gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru gan gynnwys cyllid, adrodd, rheoli a diogelu data
- Hyrwyddo cyfle cyfartal ac ymarfer gwrthwahaniaethol drwy'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y swydd
- Rhwydweithio'n briodol gyda chydweithwyr a'r gymuned, gan gynnwys datblygu ymwybyddiaeth o wasanaethau TGP Cymru ymhlith gweithwyr proffesiynol perthnasol
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y byddai'n rhesymol i'r Sefydliad ofyn amdanynt ac sy'n gyson â gradd y swydd.

**Dangosyddion Perfformiad**

- Cyfrifol am gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol a safonau ymarfer.
- Ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiad o'i gymharu â safonau a gofynion statudol, rheoleiddiol, sefydliadol ac arfer gorau.
- Cyflawni amcanion a thargedau'r gwasanaeth a rhai unigol.

**Cyfrifoldeb rheolwr llinell:**
Dim

**Cyfrifoldeb rheoli cyllideb:**
£0

**Gradd:**
MS6

**Amodau gwaith:**

Disgwylir cytuno ar 24 awr yr wythnos, gydag agwedd hyblyg o ran yr wythnos waith a fydd yn cynnwys rhywfaint o weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau ac aros oddi cartref dros nos i fynychu cyfarfodydd, cynadleddau, teithiau preswyl gyda phobl ifanc neu hyfforddiant.

Presenoldeb mewn sesiwn grŵp galw heibio hwyr y prynhawn/yn gynnar gyda'r nos ar gyfer pobl ifanc yng Nghaerdydd a/neu Abertawe.

Bydd angen teithio i wahanol leoliadau ledled Cymru a'r DU hefyd.

**Cymwysterau**

- Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a chymunedol neu ddisgyblaeth gysylltiedig megis iechyd ac addysg (dymunol).

**Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau**

Bydd deiliad y swydd yn gallu:

- cynhyrchu canlyniadau o safon mewn modd amserol sy'n canolbwyntio ar y gwasanaeth ac yn ymrwymedig i gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt
- cydweithio'n dda â chydweithwyr a phartneriaid a chydnabod gwahanol syniadau, safbwyntiau a chefndiroedd pobl eraill
- cynllunio a threfnu gwaith a rheoli amser yn effeithiol
- cyfathrebu'n effeithiol h.y. mynegi gwybodaeth a syniadau mewn modd clir, cryno a chywir; gwrando'n weithredol a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu.
- bod yn agored i ddulliau gweithredu a syniadau newydd, ymateb yn gadarnhaol i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd
- chwilio am gyfleoedd ar gyfer dysgu parhaus a thwf proffesiynol

**Gwybodaeth / Profiad**

Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos dealltwriaeth gadarn a chofnod o gyflawni yn y canlynol:

- Gweithio gyda phlant a phobl ifanc naill ai'n unigol neu mewn grwpiau
- Gweithio gyda phlant / pobl ifanc sy'n ceisio lloches neu sy'n ffoaduriaid (dymunol)
- Gwybodaeth am faterion sy'n effeithio ar ffoaduriaid / ceiswyr lloches ifanc
- Gwybodaeth am ddulliau eiriolaeth
- Gwybodaeth am Ddiogelu
- Gwybodaeth am y System Lloches a chyd-destun ehangach Lloches a Mewnfudo
- Profiad personol o fynd drwy System Lloches y DU neu brofiad blaenorol o gefnogi pobl eraill yn mynd drwy'r system (dymunol).
- Y gallu i ddefnyddio dull o weithio gyda phobl ifanc yn seiliedig ar drawma

**Arall**

- Arddangos gwerthoedd ac ymddygiad TGP Cymru bob tro a mynd ati i'w hyrwyddo mewn eraill
- Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Trwydded yrru lawn a mynediad at drafnidiaeth (dymunol ond nid yn hanfodol)